

Ffydd ar ei gorau

*“Yna gweddiodd Eliseus, ‘Arglwydd, agor ei lygaid, iddo weld.’
Ac agorodd yr Arglwydd lygaid y llanc.” (adn. 17)*

Beth am ddarllen 2 Brenhinoedd 6:8–23 ac yna myfyrio

Cyn i mi ymadael â ffydd, yr wyf am dynnu llun o’r Cristion hwnnw sydd yn gweld ffydd yn tyfu o’i fewn. Ni fydd yn honni ar unrhyw adeg fod ei ffydd yn ddi-syfl neu nad oes yna amheuon yn corddi o bryd i’w gilydd, ond mi fydd y person yma yn dod yn fwyfwy hyderus fod Duw yn gwybod orau ymhob sefyllfa. Mae ffydd sydd yn tyfu yn dod i weld mai byd Duw yw hwn ac yn credu hynny. Fel y dywed W. E. Sangster: “Rwyf yn gweld hynny nid trwy gau fy llygaid i’r gwrthddywediadau ymddangosiadol sydd yn y byd, ond trwy gredu yng ngolwg Duw, nad does yna ddim.” Mae ffydd ar ei gorau ac ar ei chryfaf pan fydd ganddom ffydd yn ffyddlondeb ein Duw. Pan fyddwn yn gallu gweld fod y gwrthddywediadau ymddangosiadol yn ddim mwy na phethau sydd yn cuddio y cariad sydd yn llosgi ymhob peth, yna yr ydym yn tyfu mewn gwirionedd.

Wedi bron i 60 o flynyddoedd fel Cristion, ni allaf honni fy mod yn y man y dymunwn fod gyda golwg ar ffydd, ond rwyf ymhellach ymlaen nag y bûm. Efallai eich bod yn rhannu fy nheimlad. Gadewch inni weddio dros ein gilydd fel y gweddiodd Eliseus dros ei was yn y stori heddiw. Roedd brenin Syria wedi peri i gylch mawr o geffylau a cherbydau ffurfio o gwmpas y ddinas, a phan ddeffrôdd gwas y proffwyd y bore canlynol a gweld y ddinas wedi ei hamgylchynu, cynhyrwyd ei enaid. Ond ni chynhyrwyd Eliseus. Beth bynnag, er mwyn tawelu ofnau ei was, gweddiodd Eliseus: “Arglwydd, agor ei lygaid iddo weld.” Ac yna, fe agorodd yr Arglwydd lygaid y gwas ac fe edrychodd a gweld y bryniau yn llawn o geffylau a cherbydau tân. “?Chydig ffydd, ble rwyf yn llechu?”

Rwyf wedi gweddio drosot, ddarllenwr, wrth i mi ysgrifennu’r ddalen yma, gan ofyn i Dduw ganiatáu i ti barhau i dyfu mewn ffydd. Y cyfan ofynnaf yw dy fod tithau hefyd yn gweddio drosot i.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Dan. 3:1–30; Heb. 11:7–40

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut fu i’r tri Iddew amlygu eu ffydd?
2. Sut mae’n bosibl gweld y Duw anweledig?

Gweddi

O Dad grasol a thrugarog, grymusa ein ffydd fel ein bod ni yn gallu gweld, a gweld yn glir fod y mynyddoedd i gyd wedi eu goleuo, a hynny yn enw Iesu. Amen.